Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Betws
**Betws Road**
**Betws**
**Rhydaman**
**Sir Gaerfyrddin**
**SA18 2HE**

**Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2020**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Betws

Lleolir Ysgol Gynradd Betws ym mhentref Betws ger Rhydaman yn awdurdod lleol Sir Gaerfyrddin. Cymraeg yw prif gyfrwng gwaith a bywyd yr ysgol. Mae 81 o ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr, yn cynnwys 4 oed meithrin sy'n mynychu'n rhan -amser. Trefnir y disgyblion yn dri dosbarth oed cymysg.

Tros dreigl tair blynedd, mae tua 21% o'r disgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae hyn yn sylweddol uwch na'r ganran genedlaethol, sy'n 18%. Mae'r ysgol wedi adnabod tua 26% o'i disgyblion fel rhai sydd ag anghenion addysgol arbennig. Mae hyn yn uwch na'r ganran genedlaethol, sy'n 21%. Ychydig iawn o ddisgyblion a ddaw o gartrefi lle siaredir Cymraeg ar yr aelwyd

Penodwyd y pennaeth presennol ym mis Medi 2004 ac arolygwyd yr ysgol ddiwethaf gan Estyn ym mis Gorffennaf 2013.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Mae bron pob un disgybl yn hapus i ddod i'r ysgol ac maent yn teimlo'n ddiogel mewn amgylchedd sy'n groesawgar a chynhwysol. Mae ymddygiad rhan fwyaf y disgyblion yn dda a dangosant barch amlwg tuag at eu cyfoedion, staff yr ysgol ac ymwelwyr. Mae llawer yn gwneud cynnydd pwrpasol yn eu medrau llythrennedd, rhifedd a chyfathrebu o'u mannau cychwyn.

At ei gilydd, mae llawer o'r athrawon yn cynllunio profiadau a gweithgareddau dysgu amrywiol fel bod disgyblion yn mwynhau datblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth yn bwrpasol. Ar y cyfan, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau mathemateg a Saesneg cadarn ac yn gwneud cynnydd pwrpasol o'u man cychwyn. Fodd bynnag, nid oes gan athrawon bob amser ddisgwyliadau digon uchel o ran dyhead academaidd disgyblion. O ganlyniad, mae ychydig ohonynt yn tangyflawni.

Mae'r pennaeth wedi cyfleu gweledigaeth glir, a thros amser, mae wedi sefydlu nifer o weithgareddau i werthuso perfformiad yr ysgol. Er bod arweinwyr yn adnabod cryfderau'r ysgol, nid yw'r gweithdrefnau monitro yn ddigon trylwyr i adnabod yr holl agweddau sydd angen eu gwella, nac i fynd i'r afael â materion pwysig fel codi safonau iaith Gymraeg disgyblion.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Digonol ac angen gwella** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Da** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Digonol ac angen gwella** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Digonol ac angen gwella** |

## Argymhellion

A1 Codi safonau llafar, darllen ac ysgrifennu Cymraeg y disgyblion

A2 Sicrhau bod y gweithdrefnau monitro a gwella yn ddigon trylwyr i adnabod a mynd i'r afael â'r meysydd pwysig sydd angen gwelliant

A3 Sicrhau bod disgwyliadau athrawon yn ddigon uchel i alluogi pob un o'r disgyblion i gyflawni hyd eithaf eu gallu

A4 Rhoi egwyddorion y cyfnod sylfaen ar waith yn llawn

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn adolygu cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Digonol ac angen gwella**

Mae llawer o'r disgyblion yn nosbarthiadau isaf yr ysgol â medrau llythrennedd a rhifedd sydd islaw'r hyn a ddisgwylir ar gyfer eu hoed. Wrth iddynt symud trwy'r ysgol, fodd bynnag, maent yn gwneud cynnydd pwrpasol o'u mannau cychwyn. Mae bron pob un o'r disgyblion ag anghenion addysgol arbennig yn gwneud cynnydd cadarn tuag at eu nodau personol. Er hyn, nid yw'r disgyblion sy'n fwy abl bob amser yn gwneud digon o gynnydd ac mae ychydig o ddisgyblion yn tangyflawni.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn y cyfnod sylfaen yn gwrando'n astud ar gyflwyniadau ac yn ymateb yn dda i gyfarwyddiadau yn y Gymraeg. Erbyn Blwyddyn 2, mae medrau mwyafrif y disgyblion yn datblygu'n addas ac maent yn dwyn i gof a thrafod eu gwaith gyda hyder cynyddol. Mae mwyafrif o'r disgyblion yn adeiladu ar eu medrau llafar yn foddhaol wrth iddynt symud trwy gyfnod allweddol 2. Erbyn Blwyddyn 6, mae rhan fwyaf y disgyblion yn trafod yn hyderus ac aeddfed, ac yn addasu eu hiaith yn bwrpasol i'r gynulleidfa yn Saesneg. Enghreifftiau effeithiol o hyn yw'r trafodaethau grŵp mewn arbrawf gwyddonol. Fodd bynnag, ychydig iawn o ddisgyblion sy'n cyfathrebu'n hyderus gan ddefnyddio'r Gymraeg yn bur fel cyfrwng. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio geiriau Saesneg yn naturiol wrth sgwrsio a phrin yw eu defnydd o eirfa sy'n berthnasol i bwnc.

Wrth iddynt symud trwy'r cyfnod sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu gwybodaeth briodol am lythrennau a'u seiniau cysylltiedig, a defnyddiant hyn i greu geiriau syml. Erbyn Blwyddyn 2, mae'r mwyafrif yn darllen testunau addas i'w hoed yn rhugl ac yn effeithiol. Mae disgyblion sy'n fwy abl yn darllen geiriau heriol yn gywir a defnyddiant eu gwybodaeth am ffoneg i oresgyn unrhyw anawsterau. Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, mae llawer yn darllen testunau ffuglen yn annibynnol a rhugl yn Saesneg ac maent yn trafod eu hoffter tuag at lyfrau penodol gyda brwdfrydedd. Mae llawer ohonynt yn defnyddio eu medrau darllen yn hyderus i drefnu gwybodaeth o ffynonellau amrywiol wrth gyflwyno gwybodaeth am organau gwahanol y corff, er enghraifft. Fodd bynnag, nid yw eu cynnydd mewn medrau darllen Cymraeg mor gadarn, ac maent yn darllen llyfrau ar lefel sy'n is na'u hoed a'u gallu disgwyliedig.

Yn y cyfnod sylfaen, mae mwyafrif y disgyblion iau yn datblygu eu medrau ysgrifennu cynnar yn addas. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer yn ysgrifennu testun byr fel portread athrawes o Oes Fictoria. Maent yn trafod sut i gynllunio eu hysgrifennu gydag oedolyn ac yna yn creu dilyniant o frawddegau syml i fynegi eu syniadau'n addas. Fodd bynnag, maent yn rhy ddibynnol ar daflenni a sgaffaldau brawddegau a geirfa sy'n rhwystro'r mwyafrif rhag ysgrifennu'n estynedig ac i gyflawni gwaith annibynnol sy'n addas i'w hoed. Mae mwyafrif y disgyblion yn dechrau adnabod ychydig o ffurfiau ysgrifennu. Er enghraifft, maent yn efelychu darn o farddoniaeth a newid y thema i bortread o Harri'r Wythfed yn llwyddiannus. Erbyn Blwyddyn 6, mae llawer yn ysgrifennu disgrifiadau manwl yn seiliedig ar destun penodol yn Saesneg wrth ysgrifennu llythyr at fachgen ym Motswana sy'n disgrifio diwrnod yn ysgol Betws. Maent yn golygu ac ailddrafftio darnau o'u hysgrifennu â medr cynyddol. Ar y cyfan, ychydig iawn o ddisgyblion sy'n defnyddio amrywiaeth eang o eirfa ddiddorol neu'n datblygu eu syniadau mewn darnau ysgrifenedig yn annibynnol yn y Gymraeg.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn cymhwyso eu medrau llythrennedd yn briodol ar draws y cwricwlwm.

Yn y cyfnod sylfaen, mae disgyblion yn gwneud cynnydd priodol yn eu datblygiad mathemategol. Erbyn Blwyddyn 2, maent yn trin arian yn gywir ac yn datblygu dealltwriaeth dda o fesur, amser a data. Mae llawer o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn cymhwyso eu medrau rhif yn hyderus mewn pynciau amrywiol. Yng nghyfnod allweddol 2, mae gan ran fwyaf y disgyblion ddealltwriaeth gadarn o strategaethau rhif ac maent yn cymhwyso eu medrau yn llwyddiannus mewn amrywiaeth werthfawr o weithgareddau. Er enghraifft, maent yn mesur hyd gwahanol esgyrn ac yn cymharu mesuriadau hyd braich gyda'r pellter mae disgybl yn taflu pêl i weld os oes cysylltiad.

Ar y cyfan, mae gan lawer o ddisgyblion ystod addas o fedrau technoleg, gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh). Maent yn defnyddio llechen electronig yn annibynnol wrth dynnu llun a chreu graff o swyddi gwahanol yn yr ardal leol yn gywir. Erbyn Blwyddyn 6, mae rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio eu medrau prosesu geiriau yn hyderus i ddarganfod gwybodaeth am anifeiliaid yn Africa a chreu cyflwyniadau amlgyfrwng am eu gwyliau yn llwyddiannus. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn creu cronfa ddata yn fwriadus ac yn defnyddio fformiwla i gyfrifo cost trefnu parti yn hyderus. Mae llawer o ddisgyblion yn ymwybodol o bwysigrwydd diogelwch ar y rhyngrwyd a'r angen i gadw cyfrineiriau yn ddiogel.

### Lles ac agweddau at ddysgu: Da

Mae bron pob un disgybl yn teimlo'n hapus i ddod i'r ysgol. Maent yn teimlo'n ddiogel o fewn cymuned ddysgu sy'n gefnogol iddynt ac maent yn hapus i droi at gyfoedion ac oedolion am gyngor a chymorth, pan fo'i angen. Mae syniad diweddar y cyngor ysgol o greu criw lles ac i drefnu sesiynau 'galw heibio' wythnosol ar gyfer unrhyw ddisgybl sydd â phryderon yn cael effaith gadarnhaol ar hyder a medrau cymdeithasol y disgyblion.

Mae dealltwriaeth llawer o bwysigrwydd yfed dŵr a chymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol rheolaidd yn bwrpasol. Mae llawer yn atgyfnerthu hyn yn effeithiol gan gymryd rhan mewn ystod addas o weithgareddau corfforol fel sesiynau 'dawnsio' boreol, gweithgaredd milltir y dydd a mynychu clwb chwaraeon yr ysgol. Trwy waith thema yn y dosbarth a'r cyfle i flasu bwydydd gwahanol, mae gan lawer o ddisgyblion wybodaeth dda am ba fwydydd sy'n dda iddynt a'r effaith a gaiff hyn ar y corff.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn ymddwyn yn dda o fewn y dosbarth ac yn ystod amser egwyl. Maent yn dangos cwrteisi tuag at ei gilydd a pharch tuag at staff ac ymwelwyr. Mae'r disgyblion hŷn yn dangos agwedd ofalgar naturiol tuag at y disgyblion iau. Mae hyn yn amlwg wrth i'r llysgenhadon efydd chwarae gemau buarth gyda nhw yn ddyddiol ac wrth i ddisgyblion Blwyddyn 5 a 6 wrando arnynt yn darllen mewn sesiynau wythnosol 'darllen ar y cyd'. Mae llawer yn gyfarwydd â thrin a thrafod mewn grwpiau ac ymhlith ei gilydd ac yn dangos parch pan fydd eraill yn siarad. Yn y cyfnod sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion oed meithrin a derbyn yn dangos dealltwriaeth gadarn o drefniadaeth ddosbarth ac maent yn symud o gwmpas yr ardaloedd amrywiol yn hyderus ac annibynnol. Er bod llawer o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn dechrau cyfrannu at yr hyn yr hoffent ei ddysgu fel rhan o'u themâu, nid ydynt yn dewis sut maent am wneud hynny yn ddigon aml.

Mae gan lawer o ddisgyblion agwedd gadarnhaol tuag at eu dysgu. Maent yn ddysgwyr gweithgar a brwdfrydig ac yn cadw ar dasg am gyfnodau estynedig. Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf yn cydweithio'n dda o fewn y dosbarth ac mae'r disgyblion hŷn yn datblygu medrau dyfalbarhad a gwydnwch yn llwyddiannus. Er enghraifft, yn seiliedig ar thema 'Gwenllïan', maent yn creu cymeriad allan o adnoddau adeiladu ac yna'n ysgrifennu cyfarwyddiadau digidol i wneud iddo symud.

Mae gwybodaeth llawer o ddisgyblion am gynaliadwyedd a dinasyddiaeth fyd-eang yn gadarn. Mae gwaith y cyngor eco i godi ymwybyddiaeth y disgyblion o sut i ofalu am eu hamgylchedd a materion sy'n effeithio ar hwn, fel ffermydd melinau gwynt, yn cryfhau dealltwriaeth llawer ohonynt yn effeithiol. Mae llawer o ddisgyblion yn ymfalchïo yn y cyfle i gyfrannu at weithgareddau yn y gymuned leol sy'n cael effaith gadarnhaol ar ddatblygu eu dealltwriaeth o faterion cymdeithasol ac anghenion pobl eraill. Er enghraifft, mae'r disgyblion yn perfformio mewn cartref preswyl yn achlysurol ac yn codi arian at apêl i gofio am y milwyr sydd wedi colli eu bywydau mewn brwydrau. Mae llawer yn ymfalchïo yn y cyfleoedd a gânt i arwain materion perthnasol er mwyn helpu a gwella'r ysgol. Er enghraifft, trwy ymateb i syniadau holl ddisgyblion cyfnod allweddol 2, mae'r cyngor ysgol wedi archebu mwy o offer chwarae i gyfoethogi eu profiadau ar y buarth amser egwyl.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Digonol ac angen gwella**

Ar y cyfan, mae athrawon yn cynllunio cwricwlwm priodol a chytbwys ar gyfer y disgyblion, gan sicrhau eu bod yn cael ystod o brofiadau addas ym mhob maes dysgu a phwnc. Mae llawer o'r athrawon yn meithrin medrau, gwybodaeth a dealltwriaeth flaenorol disgyblion yn gadarn. Maent yn ystyried gofynion y fframwaith llythrennedd a rhifedd yn briodol wrth gynllunio. Maent hefyd yn dechrau paratoi ar gyfer bodloni gofynion y cwricwlwm i Gymru trwy greu cysylltiadau rhwng agweddau cwricwlaidd a rhoi cyfleoedd i ddisgyblion hŷn greu tasgau sy'n gwneud dysgu'n fwy rhyngweithiol a difyr iddynt. Mae ffocws yr ysgol ar ddatblygu'r holl ddisgyblion i fod yn ddysgwyr iach a hyderus yn datblygu'n effeithiol.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion iau y cyfnod sylfaen yn adlewyrchu addysgeg ac egwyddorion y cyfnod hwn yn effeithiol, ac yn darparu profiadau dysgu difyr ac ysgogol ar eu cyfer. Mae gweithgareddau yn yr amgylchedd awyr agored yn datblygu medrau corfforol a chreadigol y disgyblion yn briodol. Fodd bynnag, oherwydd trefn dosbarthiadau'r ysgol, mae'r cyfleoedd i ddisgyblion Blwyddyn 2 fanteisio ar brofiadau'r cyfnod sylfaen ac i ddatblygu'n ddysgwyr annibynnol yn gyfyng.

Mae bron pob un o'r oedolion yn datblygu perthynas waith gryf gyda'r disgyblion. Mae staff yn cynllunio ystod o weithgareddau dysgu pwrpasol iddynt, sy'n annog llawer ohonynt i gymryd rhan yn frwdfrydig yn eu tasgau. Wrth ystyried y fframwaith cymhwysedd digidol, er enghraifft, mae athro Blwyddyn 5 a 6 yn cynllunio gwersi sy'n rhoi cyfle i ddisgyblion gynllunio sut i ofalu am ddannedd trwy ddefnyddio technoleg y sgrin werdd i greu cyflwyniad digidol medrus. Mae llawer o'r athrawon yn cynllunio cyfleoedd bwriadus i ddisgyblion gymhwyso eu medrau rhifedd mewn pynciau eraill yn llwyddiannus ond nid yw'r cyfleoedd i gyflwyno gwaith ysgrifenedig yn annibynnol mor amlwg.

Mae llawer o athrawon yn holi disgyblion yn fedrus i ymestyn eu dysgu, ac adeiladu ar yr hyn y gallant ei wneud. Maent yn cynllunio'r dysgu ar lefel briodol ac mae'r rhan fwyaf o athrawon yn rhannu'r meini prawf gyda disgyblion yn llwyddiannus. Fodd bynnag, mae disgwyliadau'r athrawon o'r hyn y gall disgyblion ei gyflawni yn anghyson ar draws yr ysgol. O ganlyniad, nid yw'r gweithgareddau'n ddigon amrywiol i ymateb i oed a'r ystod o wahanol allu, yn enwedig ar gyfer y disgyblion sy'n fwy abl.

Mae adborth llafar athrawon yn ystod gwersi yn helpu disgyblion i adnabod sut y gallant wella eu gwaith yn briodol. Yn yr arfer orau, mae athrawon yn cynnig sylwadau ysgrifenedig clir a manwl ar sut y gallant wella eu gwaith yn eu llyfrau. Fodd bynnag, nid yw hyn yn gyson ar draws yr ysgol. Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, mae'r disgyblion yn dechrau asesu gwaith eu cyfoedion ac yn ymateb i'w gwaith eu hunain yn hyderus. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o'u cryfderau a ble y mae angen iddynt wella.

Mae'r ysgol yn sicrhau bod disgyblion yn cael cyfleoedd buddiol i ddysgu am eu hardal, hanes a diwylliant Cymru trwy fynychu ystod addas o ymweliadau addysgol a chroesawu ymwelwyr i'r ysgol. Mae'r ychydig enghreifftiau yn cynnwys ymweld â'r theatr gyfagos a gwersyll preswyl Pentywyn. Mae darpariaeth yr ysgol ar gyfer datblygu'r Gymraeg yn cefnogi'r lleiafrif o ddisgyblion i wneud cynnydd addas wrth gaffael yr iaith. Mae'r staff yn dechrau defnyddio'r 'criw Cymraeg' yn addas i hyrwyddo'r iaith Gymraeg i'w cyfoedion trwy wobrwyo disgyblion Cymreig yr wythnos. Fodd bynnag, nid oes cysondeb yn y ffordd y mae staff yn bwydo na chywiro iaith lafar disgyblion yn y Gymraeg, o fewn gwersi ac ar adegau eraill.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r staff wedi creu ethos cartrefol yn yr ysgol gyda phwyslais amlwg i gefnogi lles disgyblion. Maent yn ofalgar iawn o'r disgyblion ac yn darparu cyfleoedd gwerthfawr iddynt fagu ymwybyddiaeth dda o'u hawliau. Mae'r staff yn hybu ymddygiad da'r disgyblion yn effeithiol, sy'n sicrhau bod safonau cwrteisi a pharch yn gadarn.

Mae gan yr ysgol system bwrpasol i olrhain cynnydd disgyblion. Mae cyfarfodydd tymhorol rhwng y pennaeth cynorthwyol a'r staff ynglŷn â chynnydd unigolion a grwpiau o ddisgyblion yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar ddealltwriaeth y staff o gyflawniad y disgyblion, sef y rheini sy'n cyflawni ar lefelau sy'n uwch na'r disgwyl. Fodd bynnag, ar y cyfan, nid yw targedau ar gyfer y disgyblion hyn bob amser yn ddigon penodol nac uchelgeisiol i'w galluogi i wneud cynnydd cystal ag y gallent.

Mae'r athrawon yn adnabod anghenion disgyblion penodol yn gynnar gan gymryd camau priodol i'w cynorthwyo'n effeithiol. Mae perthynas glòs yr ysgol gyda sefydliad sy'n darparu addysg cyn-feithrin ar y safle, yn arwain at drafodaethau ffurfiol ac anffurfiol am ddisgyblion yn rheolaidd. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar allu staff i gynllunio rhaglenni a chefnogaeth benodol i'r disgyblion cyn iddynt ddechrau yn yr ysgol. Mae'r ysgol wedi sefydlu gweithdrefnau pwrpasol i olrhain cynnydd a lles grwpiau o ddisgyblion. Mae'r staff yn defnyddio'r wybodaeth sy'n deillio o hyn yn llwyddiannus er mwyn clustnodi darpariaeth benodol iddynt sy'n cael ei haddasu yn ôl y galw. Mae'r rhaglenni ymyrraeth o fewn yr ysgol yn gadarn ac yn cefnogi dysgu disgyblion penodol yn dda, er enghraifft i gryfhau eu medrau llythrennedd a rhifedd. Ar gyfer y disgyblion hynny sydd ag anghenion addysgol arbennig, maent yn darparu

cynlluniau addysg unigol pwrpasol iddynt ac mae'r rhieni'n cael eu cynnwys wrth eu llunio a'u hadolygu'n dymhorol. O ganlyniad, mae'r ysgol yn sicrhau bod rhan fwyaf y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn gwneud cynnydd da yn erbyn eu targedau personol. Mae'r ysgol yn meithrin perthynas waith lwyddiannus gydag asiantaethau allanol. Er enghraifft, mae athrawon yn gwneud defnydd effeithiol o wasanaeth lleferydd ac iaith yr awdurdod lleol sy'n darparu cefnogaeth arbenigol ac arweiniad i'r staff.

Trwy ystod briodol o weithgareddau allgyrsiol a chwricwlaidd, mae gan yr ysgol drefniadau effeithiol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Hyrwyddir agweddau ysbrydol y disgyblion yn effeithiol trwy gyfnodau o gyd-addoli rheolaidd ynghyd ag ymweliadau cyson gan arweinwyr crefyddol. Mae'r ysgol yn datblygu empathi'r disgyblion tuag at eraill yn addas trwy gefnogi elusennau fel Plant Mewn Angen a thrwy eu haddysgu am grefyddau a diwylliannau pobl mewn gwledydd eraill.

Mae darpariaeth yr ysgol ar gyfer datblygu medrau creadigol disgyblion yn datblygu'n fwriadus. Mae'r staff yn sicrhau bod gan ddisgyblion gyfleoedd cyson i gymryd rhan mewn cyngherddau, canu mewn canolfan breswyl leol a chystadlu yn Eisteddfod yr Urdd. Mae hyn yn cyfrannu'n llwyddiannus at fagu eu hyder. Mae'r staff yn cynllunio gweithgareddau addas sy'n datblygu gwerthfawrogiad disgyblion o ddiwylliant Cymru. Er enghraifft, mae gwybodaeth disgyblion Blwyddyn 5 a 6 am ganeuon cyfoes o Gymru wedi ehangu'n effeithlon ar ôl mynychu 'gig', ac mae ymweliadau addysgol i Amgueddfa Caerdydd ac arfordir Sir Benfro yn codi eu hymwybyddiaeth am wahanol dirluniau yn dda.

Mae'r ysgol yn cynnig cyfleoedd addas i'r disgyblion ddatblygu eu medrau arwain, er enghraifft trwy weithgareddau'r cyngor ysgol, y cyngor eco a'r llysgenhadon efydd. Fodd bynnag, prin yw cyfraniad y criw Cymraeg i fynegi barn yn uniongyrchol ar weithdrefnau ehangach yr ysgol ac i ddylanwadu ar ddarpariaeth yr iaith Gymraeg.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

### Arweinyddiaeth a rheolaeth: Digonol ac angen gwella

Mae'r pennaeth wedi datblygu gweledigaeth sy'n sail i'r ethos cartrefol a gofalgar sy'n bodoli yn yr ysgol. Mae'r holl staff a chymuned yr ysgol yn cydweithio'n dda i sicrhau bod lles y disgyblion yn ganolog i'w gwaith. Mae hyn yn hybu agweddau cadarnhaol yn yr ysgol ac yn cefnogi gallu disgyblion i ddatblygu i fod yn ddinasyddion cyfrifol. At ei gilydd, mae arweinyddiaeth yr ysgol yn sicrhau bod llawer o'r disgyblion yn gwneud cynnydd priodol o'u man cychwyn yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Mae'r staff yn ymroddgar ac yn cydweithio'n agos gan ymgymryd â'u cyfrifoldebau yn gydwybodol. Mae'r pennaeth yn elwa'n dda iawn o gefnogaeth gadarn y pennaeth cynorthwyol ac, ar y cyd, maent yn dangos ymrwymiad addas i hyrwyddo gwelliannau.

Mae'r ysgol yn datblygu'n gymuned ddysgu briodol ac mae ganddi drefniadau addas i reoli perfformiad y staff. Mae hyn yn dechrau cyfrannu'n fuddiol at eu hanghenion dysgu proffesiynol. O ganlyniad i gyfleoedd gwerthfawr i arsylwi ar arferion a dulliau addysgu da mewn ysgolion eraill, yn ddiweddar, rhoddwyd cyfleoedd i staff gryfhau cyfraniad y disgyblion hŷn at wella eu gwaith eu hunain yn llwyddiannus. Fodd bynnag, er bod agweddau o'r addysgu yn gwella, nid yw eto'n gyson ar draws yr ysgol nac wedi cael effaith ddigonol ar safonau disgyblion.

Mae aelodau'r corff llywodraethol yn gefnogol i'r ysgol ac yn cyflawni eu cyfrifoldebau statudol yn effeithiol. Trwy adroddiadau rheolaidd y pennaeth, dadansoddiadau data a chynnal ymweliadau â'r ysgol, mae gan lywodraethwyr ddealltwriaeth gadarn o gyrhaeddiad a chynnydd disgyblion. Mae eu hadroddiadau yn dreiddgar ac yn cyfeirio'n glir at faterion i wella safonau ac ansawdd y ddarpariaeth. Yn eu rôl fel ffrindiau beirniadol, mae'r aelodau wedi dechrau dwyn yr ysgol i gyfrif am ei pherfformiad yn llwyddiannus. Fodd bynnag, mae hi'n rhy gynnar i weld effaith hyn.

Mae'r ysgol, dros amser, wedi sefydlu ystod niferus o weithdrefnau hunanwerthuso addas, gan gynnwys arsylwadau gwersi, craffu ar waith disgyblion a dadansoddi data. Yn ddiweddar, mae'r gweithdrefnau hyn yn galluogi'r staff i adnabod cryfderau'r ysgol a rhai o'r meysydd ar gyfer gwelliant yn llwyddiannus. Enghraifft dda o hyn yw'r safon a chyflawniad effeithiol a welwyd mewn mathemateg. Fodd bynnag, nid yw'r meini prawf llwyddiant yn ddigon clir a manwl ar gyfer gwerthuso cynnydd a gwella'r ddarpariaeth. O ganlyniad, nid yw arweinwyr wedi adnabod meysydd pwysig i'w datblygu, fel yr diffyg yn y ddarpariaeth llawn i holl ddisgyblion y cyfnod sylfaen.

Mae'r ysgol yn dechrau ymateb i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol yn foddhaol. Ar y cyfan, mae'r ysgol wedi datblygu medrau llythrennedd Saesneg, rhifedd a TGCh y disgyblion yn gadarn. Mae'r staff yn dechrau deall gofynion y cwricwlwm newydd i Gymru ac maent wedi rhoi ffocws clir ar wella lles a ffitrwydd y disgyblion.

Mae gan yr ysgol lefel addas o staff addysgu a staff ategol, ac mae'n gwneud defnydd priodol ohonynt i roi cymorth i unigolion ac i gyfoethogi'r dysgu. Mae'r arweinwyr yn monitro gwariant yn rheolaidd ac yn ofalus. Mae cysylltiad agos rhwng y gwariant ac amcanion, targedau a chynlluniau gwella'r ysgol. Mae'r rheolwyr yn gwneud defnydd darbodus o'r grant datblygu disgyblion i wella'r ddarpariaeth ar gyfer gwella medrau llythrennedd, rhifedd a lles y disgyblion sy'n gymwys i'w dderbyn. O ganlyniad, mae'r disgyblion hyn yn gwneud cynnydd cadarn o'u mannau cychwyn ac yn cyrraedd lefelau uchel, yn enwedig mewn mathemateg. Mae'r ysgol yn elwa o gyfraniad sylweddol a chyson y gymdeithas rhieni i ehangu'r profiadau y mae'r disgyblion yn eu cael i fynd ar wahanol ymweliadau. Mae'r ardaloedd dysgu mewnol yn cyfoethogi profiadau dysgu'r disgyblion yn llwyddiannus ac yn cefnogi'r dysgu ac yn hybu lles yn dda.

## Sail dystiolaeth ar gyfer yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2020: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 29/04/2020